

Pryd y daeth y Gymraeg i Ynys Prydain?

Mae awdur yr erthygl hon yn ysgolhaig sydd wedi myfyrio'n helaeth ar darddiad yr ieithoedd Celtaidd ym Mhrydain. Mae'n ymddangos bellach fod gwyddoniaeth yn taflu goleuni newydd ar y mater.

Ychydig cyn Nadolig 2021 cynigiodd darganfyddiadau DNA ateb newydd i'r cwestiwn uchod, un sydd wedi peri cryn benbleth i haneswyr, ieithyddion, ac archaeolegwyr fel ei gilydd.

Mae'n gwestiwn pwysig am fod yr iaith Gymraeg yn greiddiol i hunaniaeth y Cymry Cymraeg ers yr Oesoedd Canol. Y gred bryd hynny oedd mai hi oedd iaith gysefin Prydain, iaith a ddaethai i'r ynys wag hon gyda ffoaduriaid o Gaerdroea yn Nhwrci. Darfu am y myth hwnnw yn y 18g. pan welodd Edward Lhwylod fod y Gymraeg, y Gernyweg a'r Llydaweg yn perthyn i'r Wyddeleg ac i hen ieithoedd y Celtiaid cyfandirol. Yna, sylweddolodd Syr William Jones fod mamiaith Geltaidd y

rheini'n disgyn o nainiaith goll, sef yr Indo-Ewropeg.

Dim ond yng ngogledd yr Eidal, Ffrainc, a dwyrain Sbaen y goroesa arysgrifau Celtaidd eu hiaith sy'n dyddio o'r cyfnod cyn amser Crist. Ond rhaid bod yr iaith yn cael ei siarad yn ehangach, a barnu wrth yr enwau lleoedd Celtaidd a gofnodwyd gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, o Dwrci draw i Bortiwgal. Cadarnheir hyn gan arysgrifau Lladin sy'n cynnwys enwau personol Celtaidd, er enghraifft *Nertomarus* (h.y. Nerthfawr) yn Slofenia, Hwngari, Awstria, Ffrainc, Sbaen a'r Iseldiroedd. Ond ble yn union yn eangderau'r ardal hon yr oedd man cychwyn yr iaith?

Cytuna pawb fod y gangen Geltaidd wedi ymwahanu




Llun: Karen Roe

Caint, troedle cyntaf y Celtiaid ym Mhrydain, mae'n ymddangos

Enwau personol Celtaidd o'r teip
'cyfansawdd' (e.e. Nerto-maros)
mewn arysgrifau Rhufeinig

Map: Introduction and Supplement to the Corpus of
Latin Inscriptions of the Roman Empire Containing
Celtic Personal Names (©CMCS 2009)



Enwau lleoedd Celtaidd cynnar
Map: Introduction and Supplement
to the Corpus of Latin Inscriptions
of the Roman Empire Containing
Celtic Personal Names
(©CMCS 2009)



Rhwng c. 1000 ac 875 CC, daeth DNA trigolion de Prydain (Cymru a Lloegr) i fod yn debyg i DNA Ffrainc, yn sgil mewnfudo dros y Sianel.

oddi wrth yr Indo-Ewropeg wrth i'r nainiaith honno symud tua'r gorllewin a disodli ieithoedd hŷn. Ond pa mor bell yr aeth cyn i'r gangen Geltaidd ymwahanu? Mae tair damcaniaeth.

1. Y gred arferol yn yr 20g. oedd 'Celteg o'r Dwyrain' – mai wrth lygad afon Donau (Danube) yn ne'r Almaen yr oedd tarddle'r iaith, ac iddi gael ei lledaenu gan ryfelwyr yr Oes Haearn o tua 750 CC ymlaen. Dyna'r efengyl a geid mewn llyfrau fel *The Celts* gan T.G.E. Powell (1958), ac a geir hyd heddiw mewn cyfresi teledu poblogaidd. Yn anffodus, seiliwyd y gred ar adroddiad cyfeiliornus gan yr hanesydd Groeg Herodotos (c. 450 CC) fod y Celtaid yn trigo wrth darddle afon Donau. Ond mae'n amlwg fod Herodotos dan yr argraff fod yr afon honno'n cychwyn yn y gorllewin pell, nid yn yr Almaen.

2. Ers y 1980au, gwelwyd rhai archaeolegwyr (fel Colin Renfrew) yn gwrthod 'Celteg o'r Dwyrain' gan dybio y gallai'r iaith fod wedi cyrraedd Prydain ac Iwerddon yn barod yn ystod yr Oes Efydd; nodir hyn hefyd yn *Y Gwareiddiad Celtaidd*, gol. Geraint Bowen (1987). Barry Cunliffe sydd wedi datblygu'r fersiwn mwyaf eithafol o'r syniad hwn, sef 'Celteg o'r Gorllewin'. Yn *The Ancient Celts* (2018), awgryma fod ffermwyr Indo-Ewropeaidd wedi cyrraedd Môr yr Iwerydd erbyn 5500 CC, a datblygu yno'r dafodiaith Gelteg cyn c. 2800 CC, a'i hallforio i gyfeiriad y dwyrain, tua chanolbarth Ewrop yn ystod yr Oes Efydd, c. 2700–2200 CC. Dyfalodd Cunliffe fod Celtaid yr Iwerydd yn medru cynnal tafodiaith gyffredin

o Bortiwgal i fyny hyd at Ynysoedd Prydain am eu bod yn cysylltu â'i gilydd ar hyd y 'llwybrau morol' bondigrybwyll a fapiwyd gan yr Athro E.G. Bowen. Yr unig dystiolaeth gadarn a gynigir o blaid 'Celteg o'r Gorllewin' yw *Tartessian*, iaith annealladwy ar rai arysgrifau o'r 7g. CC yn yr Algarve. José Antonio Correa a awgrymodd yn ôl yn y 1980au mai iaith Geltaidd oedd Tarteseg, ond fe gefnodd yn fuan ar ei syniad ei hun. Prin fod unrhyw ieithydd o blaid y syniad erbyn hyn.

3. Yn 2020 awgrymais drydedd ddamcaniaeth, 'Celteg o'r Canol', yn y *Cambridge Archaeological Journal* sef bod yr iaith wedi cychwyn yn ystod yr Oes Efydd, rhwng 2000 a 1000 CC, a hynny mewn ardal weddol ganolog –





Llun: Amgueddfa Cymru

Brigwn Capel Garmon (c. 50 CC–50 OC)



Nid yw'r iaith Gymraeg ond yn un o'r ieithoedd niferus a gyrhaeddodd Brydain ers y gyntaf o'r 'hen ieithoedd diflanedig' a gariwyd yma wedi Oes yr Iâ.

Ffrainc fwy neu lai – cyn lledu i sawl cyfeiriad c. 1000 CC, gan gynnwys i Brydain. (Mae'r erthygl, 'An Alternative to Celtic from the East and Celtic from the West', ar-lein am ddim.)

Daeth cadarnhad annisgwyl i'r ddamcaniaeth hon yn ddiweddar, mewn erthygl ynghylch DNA hynafol yn *Nature* 22 Rhagfyr 2021, 'Large-Scale Migration into Southern Britain During the Middle to Late Bronze Age', gan David Reich (Ysgol Feddygol Harvard) a'i gydweithwyr. Dadansoddwyd DNA 803 unigolyn a fu farw ar draws Ewrop yn yr Oesoedd Efydd diweddar (c. 1550–750 CC) a'r Oes Haearn (o c. 750 ymlaen). Rhwng c. 1000 ac 875 CC, daeth DNA trigolion de Prydain (Cymru a Lloegr) i fod yn debyg i DNA Ffrainc, yn sgil mewn fudo dros y Sianel. Y symudiadau hyn, meddir, 'a gyfrannodd tua hanner etifeddiaeth fiolegol pobloedd Oes Haearn Lloegr a Chymru, ac sy'n tystio felly i broses demograffig (nad oedd yn hysbys cyn hyn) a barodd o bosibl i'r ieithoedd Celtaidd cynnar ymledu i Brydain'.

Mewn gwrthgyferbyniad, ni welwyd 'unrhyw dystiolaeth fod mudo ar raddfa debyg wedi hynny yn ystod yr Oes Haearn' (h.y. ar ôl c. 750 CC). Yn lle hynny, arhosodd poblogaeth Prydain yn gymharol ynysig; yn wir, fe ddatblygodd ei llofnod genetig ei hun, sef lefel uchel o oddefiad lactos o'i chymharu â'r Cyfandir. (Ai tlodi a orfodai'r trigolion i fwyta ac yfed cynnyrch llaeth? Yn yr

Oesoedd Canol, roedd byw ar gynnrych llaeth yn nod amgen y tlodion.)

Hyd y dydd heddiw, croesi'r Sianel i Gaint yw'r ffordd rwyddaf i fudo o Ffrainc i Brydain. Does dim syndod, felly, mai yn Fferm Cliff Ends, Thanet, Caint, y daethpwyd o hyd i'r samplau cynharaf (c. 1300 CC) o'r DNA newydd a gysylltir yn *Nature* â'r iaith Geltaidd. Gwahanol oedd y mathau hŷn o DNA a gafwyd yng Nghymru o'r un cyfnod. Gallwn ddychmygu'r Celtiaid yn mudo o Gaint i'r gorllewin ac i'r gogledd nes bod y rhan fwyaf o drigolion Prydain yn siarad eu hiaith – o leiaf nes i ieithoedd Indo-Ewropeaidd newydd gyrraedd yn sgil mudo diweddarach: Lladin gyda'r Rhufeiniaid, Saesneg, Norseg a Ffrangeg, yna Romani, Wrddw, Pwyleg, a Pashto mewn oesoedd diweddarach...

Yng ngogledd Prydain, roedd effaith y mudo o Ffrainc ar y samplau DNA yn llai nag yn y de. Fel y dywed awduron yr erthygl yn *Nature*: 'mae dyfodiad diweddarach yr ieithoedd Celtaidd yn yr Alban yn gwbl gyson â'r dystiolaeth fod iaith wahanol yn cydfodoli yno yn y mileniwm cyntaf OC â'r ieithoedd Celtaidd'. Cyfeirio y maen nhw yma at astudiaeth ddiweddar yn y *Journal of Celtic Linguistics* (2020) gan Simon Rodway o Brifysgol Aberystwyth. Erbyn y 7g. OC roedd y Pictiaid yn siarad iaith Geltaidd debyg i'r Gymraeg, ond, fel y dengys Dr Rodway, wrth godi arysgrifau, defnyddient yr iaith Bicteg, iaith sy'n dal yn annealladwy — iaith eu hynafiaid, yn ôl pob tebyg.

Ble mae hyn oll yn gadael hunaniaeth y Cymry Cymraeg? Gallwn ffarwelio â'r syniad canoloesol cysurlon o'r Cymry Cymraeg, gwir berchnogion Ynys Prydain ers cyn cof, mewn gwrthgyferbyniad â'r Saeson, 'mewn fudwyr anghyfreithlon' yn glanio yn eu tri bad yn Thanet, Caint. Ffarwél hefyd i weledigaeth epig yr 20g. o wroniaid Celtaidd o Hallstatt, Hallein a'r Heuneberg yn cyrchu Prydain yn ystod yr Oes Haearn. Nid y 'Bobl Gyntaf' yw'r Cymry Cymraeg nac ychwaith *conquistadores* yr Oes Haearn. Nid yw'r iaith Gymraeg, bathodyn eu hunaniaeth, ond yn un o'r ieithoedd niferus a gyrhaeddodd Brydain ers y gyntaf o'r 'hen ieithoedd diflanedig' a gariwyd yma wedi Oes yr Iâ. Mae ei hawliau'n dibynnu ar yr hawliau hynny a rennir gan *bob* iaith ddynol, nid ar unrhyw apêl unigryw at hanes.